YR NUT

Newyddion yr NUT

RHIFYN CYMRU

Tachwedd 2009

Y gymdeithas fwyaf yn Ewrop ar gyfer athrawon

www.teachers.org.uk

Chwarae Teg i Blant Cymru

"Mae Cymru bellach wedi mwynhau degawd o lywodraeth ddatganoledig ac mae newidiadau arwyddocaol iawn wedi'u gwneud i'r ddarpariaeth addysg. Eto i gyd mae anawsterau arwyddocaol o safbwynt cyllido'n parhau ac mae angen gweithredu ar frys os yw Cymru i gyrraedd y nod o sicrhau darpariaeth addysgol o safon fyd-eang ar gyfer ei phobl ifanc. Bydd NUT Cymru yn parhau i ymgyrchu dros ariannu teg. Mae ein haelodau a'r plant a ddysgir ganddynt yn haeddu'r gorau."

Christine Blower, Ysgrifennydd Cyffredinol yr NUT:

Mae NUT Cymru dro ar ôl tro wedi tynnu sylw at y gwahaniaethau yn y ddarpariaeth ariannol rhwng Cymru a Lloegr. Mae'r arian ar gyfer pob disgybl, ar gyfartaledd, £496 y flwyddyn yn llai yng Nghymru nag yn Lloegr.

Nid yw'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2010, a gyhoeddwyd ym mis Hydref, yn cynnig cyfle i gau'r bwlch. Os caiff y gyllideb yma ei derbyn a'i chymeradwyo gan y Cynulliad, bydd addysg yng Nghymru yn gweld gostyngiad mewn termau real o safbwynt cyllido. Ni fydd ysgolion yn gallu darparu gwasanaeth digonol ar gyfer eu disgyblion a'u cymunedau. Bydd swyddi athrawon dan fygythiad. Bydd maint dosbarthiadau'n cynyddu. Bydd torri'n ôl ar adnoddau. Bydd safonau'n disgyn.

Mae'r NUT yn ymgyrchu yn erbyn yr anghyfiawnder hwn. Mae ein pobl ifanc yn haeddu gwell. Gwnewch safiad nawr dros ariannu teg yng Nghymru.

Ymunwch ag ymgyrch yr NUT – gweithredwch nawr

Ewch i www.teachers.org.uk/walesfunding i arwyddo'n deiseb ac e-bostio eich Aelod Cynulliad.

Byddwn yn lobïo'r Cynulliad ar Ragfyr 8fed. Mwy o fanylion gan NUT Cymru ar 02920 491 818.

"Mae trefniadau cyllido yn cynllwynio yn erbyn y nod o ddarparu addysg o safon fyd-eang i blant Cymru. Mae ysgolion yn ei chael hi'n anodd. Mae swyddi'n cael eu colli. Mae disgyblion yn dioddef. Pan fydd y Cynulliad yn trafod y cynigion ar gyfer y gyllideb gyfredol, dylai'r Aelodau feddwl am ddyfodol addysg yng Nghymru."

David Evans –
Ysgrifennydd NUT Cymru

Ein nod: un undeb ar gyfer athrawon i gyd

Ymunwch â'r NUT Mynnwch air â'ch cynrychiolydd ysgol

www.teachers.org.uk

Ffoniwch nawr i ymuno

Llinellau Brys Ymaelodi **0845 300 1669** neu **020 7380 6369**

Llinell Gymorth Manylion **0845 300 1666**

Cynlluniwyd a chyhoeddwyd gan Adran Strategaeth a Chyfathrebu yr NUT – www.teachers.org.uk Dyluniwyd gan Paragraphics – www.paragraphics.co.uk Printiwyd gan Victoria House Printing Co. Ltd (TU throughout) – 6574w/11/09